# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd ar Zoom nos Lun Mehefin 14eg 2021

Presennol: Henry Hughes, Siân Parri, Gareth Jones, Alan Hughes, John Davies, Chris Brady, Alyn Williams, Humphrey Williams, Terry Huws

Ymddiheuriadau:

1. Cadeiriwyd gan Siân Parri ac estynnodd groeso i bawb.
2. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Baw Ci cynyddol ar Barc Main Garnfadryn –** Dywedodd Alan Hughes iddo drefnu gosod bin baw ci yn y safle parcio wrth llwybr i fyny Garn Fadryn. Diolchwyd iddo am drefnu hyn mor sydyn.
   b. **Llainfatw –** Dywedodd Sian Parri eu bod yn diwsgwyl clywed yn ol gan y Parch Richard Woods, yn dilyn iddo ofyn i'r Comisiwn Elusenau beth a ellir ei wneud hefo'r eiddo. Yn y cyfamser mae' adeilad yn dirywio.
   c. **Porthysgaden –** Deallwyd fod ymwelwyr yn parhau i fynd i'r safle i wersylla a bod y bobl leol yn gofyn iddynt adael. Er bod yr arwyddion i fyny, nodwyd eu bod yn fychan ac nad oedd logo'r Cyngor ar y rhai oedd ar safle sydd yn eiddo Cefnamwlch, ac efallai felly ddim yn ymddangos ddigon awdurdodol. Deallwyd fod gwersylla gwyllt yn broblem drwy'r Sir. Bydd angen cadw llygad ar y sefyllfa dros y misoedd yr haf.
   ch. **Cefnamlwch –** Yn sgil trafodaeth Porthsgaden, deallwyd hefyd fod rhenti tai'r Stad wedi codi bron tu hwynt i fodd pobl leol. Penderfynwyd fod y Clerc yn cysylltu â Carter Jonas a Stad Cefnamwlch (Dafydd WynneFinch) ynglyn a hyn
   gan hefyd geisio cadarnhad fod pobl leol yn cael y cynnig cyntaf ar y tai.

d/ **Diweddariad o hen geisiadau cynllunio –** Bu i'r Clerc ffonio Cyngor Gwynedd gan ofyn am alwad yn ol gan y Swyddog Gorfodaeth – hyd yn hyn ni chafwyd ymated.

Yn ystod ail hanner y cyfarfod, gadawodd y Cadeirydd Sian Parri'r gadari, a chroesawyd y Cadeirydd newydd Alan Hughes. Diolchodd Alan i Sian am ei gwaith dros y tair blynedd diwethaf (tymor tipyn hirach na'r arfer oherwydd rhesymau gan gynnwys cyfnod clo y Covid). Penodwyd Gareth Jones fel Is-Gadeirydd.

3. Gohebiaeth:

a/ **Cais Cynllunio C21/0147/46/LL Tyddyn Isaf, Tudweiliog-**
Dim Sylw

b/ **Cais Cynllunio C21/0544/46/DT Tan y Ffordd GarnFadryn –**
Cefnogi

c/ **Cais Trwydded Cwt Tatws Tudweiliog –** Penderfynwyd cysylltu ar adran drwyddedu ar adran Cynllunio i sicrhau fod yr hawliau newid defnydd mewn lle. Hefyd nodi'r pryderon isod wrth yr adran drwyddedu:
. Niferoedd mwy o bob, fyddai hyn yn golygu mwy o gerbydau (parcio yn broblem sy'n bodoli eisioes) a sbwriel?
. Yr effaith a chai hyn ar y dafarn leol.

**4. Unrhyw fater arall:**

a/ **Problem parcio lon Towyn –** Cafwyd ar ddeall fod y mannau a greuwyd gan y Cyngor Sir fel mannau pasio cerbydau yn cael eu defnyddio fel mannau parcio, a hefyd bod y sefyllfa parcio ar y lon yn beryglus,e.e pe byddai angen cerbyd mawr ar frys fel injan dan. Pasiwyd fod y Clerc i gysylltu ar adran Priffyrdd i ddatgan y pryder.

b/ Mabwysiadwyd – Polisiau Rheolau Sefydlog/Polisi Rheoliadau Cyllidol/Polisi Asesiad Risg/Polisi Iaith a Cod Ymddygiad.

Cynhelir y cyfarfod nesar ar Zoom Nos Lun 12ed Gorffenna 2021
am 7.30yh